O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 154 (Cy. 21)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Glyndyfrdwy, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013

Gwnaed	*28 Ionawr 2013*
Yn dod i rym	*4 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn**.**

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Glyndyfrdwy, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2013.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:30 o'r gloch ar 4 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd"*("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A5 yng Nglyndyfrdwy yn Sir Ddinbych sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth i Dŷ Newydd hyd at bwynt 200 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y fynedfa i Dafarn y Berwyn Arms, i'r gorllewin o Lyndyfrdwy.